

<p><b><u>Mynychwyr</u></b></p> <p><b>Aelodau'r Bwrdd:</b>                  Y Cynghorydd Huw Thomas  <b>(Cadeirydd)</b>                  Charles Janczewski (<b>Is-gadeirydd</b>)                  Fiona Kinghorn                  Paul Orders                  Sarah McGill                  Gareth Newell                  Fiona Hourahine                  Huw Jakeway                  Mike Wyatt                  Lee Jones                  Daniel Jones                  Eirian Evans                  Sheila Hendrickson-Brown                  Amelia John</p> <p><b>Ymddiheuriadau:</b>                  Suzanne Rankin                  Abigail Harris                  Hannah Williams                  Gareth O'Shea                  Michael Evans                  Alun Michael                  Mark Brace                  Wendy Gunney</p> <p><b>Hefyd yn bresennol:</b>                  Graham Robb                  Suzanne Wood                  Tim Gordon                  Sian Sanders                  Dylan Owen                  Clive Bailey (Clerc)</p>	<p>Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC)</p> <p>Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP CAF)</p> <p>Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP CAF                  Prif Weithredwr, CC</p> <p>Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC                  Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC</p> <p>Rheolwr Gweithrediadau, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)                  Prif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC)                  Rheolwr Grŵp, GTADC</p> <p>Pennaeth Staff, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHT)                  Pennaeth Cydlyniant a Diogelwch Cymunedol, SCHT                  Pennaeth UCP Dros Dro, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC)                  Prif Swyddog Gweithredol, C3SC                  Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Tai, Llywodraeth Cymru</p> <p>Prif Weithredwr, BIP CAF                  Cyfarwyddwr Cynllunio (BIP CAF)                  Pennaeth UCP, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (ar secondiad)                  Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, CNC                  Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth y De (CNC)                  Comisiynydd Heddlu a Throsedd, De Cymru (CHT)                  Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throsedd (SCHT)                  Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru</p> <p>Cadeirydd Annibynnol, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd                  Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru                  Pennaeth Cyfathrebu, CC                  Rheolwr Gweithredol (RhG), Diogelwch Cymunedol, CC                  RhG, Polisi a Gwellfa, CC                  Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC</p>
--	---

Rhif	Eitem Agenda	
1.	<p><b>Croeso a Chyflwyniadau</b></p> <p>Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.</p>	
2.	<p><b>Cylch Gorchwyl, Cofnodion a Gweithredoedd BGC Caerdydd</b></p> <p><b>CYTUNWYD:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Cyng Huw Thomas a Charles Janczewski i barhau fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn y drefn honno.</li> <li>• Codwyd Cylch Gorchwyl diweddaraf y BGC yng Nghaerdydd, gan gynnwys diwygiadau gan y CHT.</li> <li>• Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd 9 Mawrth 2022</li> </ul> <p><b>Camau Gweithredu:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Cadeirydd i godi gyda Chyfarwyddwr Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) yr awgrym gan CNC y dylid gwahodd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i'r BGC.</li> <li>• Cynigion i fwrw ymlaen â gwaith y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol i'w drafod mewn cyfarfod o'r BGC yn y dyfodol.</li> </ul>	<p>Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Ysgrifenyddiaeth</p>
3.	<p><b>Ymateb Ffoaduriaid Wcráin</b></p> <p>Fe wnaeth Sian Sanders ddiweddarau'r Bwrdd ar y safle diweddaraf.</p> <p><b>Camau Gweithredu:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Amelia John i godi materion a drafodiwyd o ran llety, cyllid a chyfathrebu gyda Llywodraeth Cymru</li> <li>• Sian Sanders a Mike Wyatt i gydgysylltu ar ddiogelwch tân</li> </ul>	<p>Amelia John</p> <p>Sian Sanders/ Mike Wyatt</p>
4.	<p><b>Diweddariad Cynnydd Blynyddol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid</b></p> <p>Diweddarodd Graham Robb y Bwrdd ar gynnydd a wnaed ers lansio Strategaeth datblygu Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd, 'Ein Dyfodol Ni i Gyd' yn 2020:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gostyngiad sylweddol yn nifer y Mynychwyr Tro Cyntaf, mae defnydd y ddalfa ar lefel isel, tuedd ar i lawr mewn cyfraddau aildroseddu.</li> <li>• Cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran deall anghenion pobl ifanc drwy ddefnyddio dull 'plant yn gyntaf'.</li> <li>• Mae trefniadau arwain a gweithio ar y cyd cryfach bellach yn cefnogi'n well y rhai sy'n helpu plant i sicrhau gwell canlyniadau.</li> <li>• Yn dilyn Arolygiad ar y Cyd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ym mis Ebrill 2022, ni fydd Caerdydd yn gorfod ailgyflwyno.</li> </ul>	

Rhif	Eitem Agenda	
	<p>Cynhaliwyd trafodaeth, gan gydnabod y cynnydd sylweddol a wnaed a meysydd ffocws yn symud ymlaen.</p> <p><b>CYTUNWYD:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhoddodd Graham Robb drosolwg o strategaeth ddrafft y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid 2022-24, "Adeiladu Dyfodol Mwy Diogel Gyda'n Gilydd" a chafodd ei gyhoeddi ei gymeradwyo gan y BGC.</li> </ul>	
5.	<p><b>Adroddiad diwedd y flwyddyn Symud Mwy Bwyta'n Dda ac Edrych Ymlaen</b></p> <p>Fe wnaeth Fiona Kinghorn a Suzanne Wood ddiweddarau'r Bwrdd, gan dynnu sylw at gyflawniadau allweddol a chynnydd wrth ddatblygu dull system gyfan.</p> <p>Y camau nesaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu grŵp Gweithredu Symud Mwy Bwyta'n Dda, gan alluogi partneriaeth i oruchwylio'r cynllun cyfan.</li> <li>Bwrdd Atal Cynnydd i gael ei sefydlu, gan hwyluso gwaith ar y cyd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Mae hyn yn cynnwys blaenoriaethau Symud Mwy Bwyta'n Dda fel Gweithleoedd Iach, Lleoliadau Addysgol, Hysbysebu Iach a Marchnata.</li> </ul> <p><b>CYTUNWYD:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Cynllun Symud Mwy Bwyta'n Dda (2020-2023) yn cael ei symud ymlaen i fis Mawrth 2024, gan alluogi aliniad â Chynlluniau Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach yn y dyfodol.</li> <li>Y BGC i dderbyn diweddariadau cynnydd bob blwyddyn</li> </ul> <p><b>Cam Gweithredu:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae fersiwn SWAY o'r diweddariad cynnydd i'w ddsbarthu i'r BGC.</li> <li>Cafwyd trafodaeth bod nifer y plant â phwysau iach yn uwch ym Mro Morgannwg nag yng Nghaerdydd ond i'r gwrthwyneb yn wir am oedolion. Iechyd Cyhoeddus i roi adborth i'r Cadeirydd.</li> </ul>	Suzanne Wood/ Ysgrifenyddiaeth Suzanne Wood
6.	<p><b>Cynllun Lles Lleol Caerdydd - Adolygu Blaenoriaethau Partneriaethau</b></p> <p>Diweddarodd Gareth Newell y Bwrdd ar yr adolygiad o flaenoriaethau partneriaeth sy'n cael eu cynnal, gan weithio gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) a BGC y Fro. Mae rhestr gychwynnol o flaenoriaethau wedi'i nodi.</p> <p>Mae adolygiad o'r gwaith llywodraethu partneriaethau presennol mewn ôl troed rhanbarthol yng Nghaerdydd a'r Fro hefyd yn cael ei gynnal gyda'r bwriad o wneud argymhellion ar gyfer newid, gan sicrhau bod trefniadau partneriaeth yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau cywir, mae</p>	

Rhif	Eitem Agenda	
	<p>Ilinell olwg i Wasanaeth Cyhoeddus neu BGC Caerdydd a, lle bynnag y bo modd, mae'r trefniadau presennol yn cael eu symleiddio.</p> <p>Cafodd y Bwrdd hefyd wybod am yr amserlenni statudol ar gyfer cynhyrchu'r Cynllun Lles.</p> <p><b>CYTUNWYD:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y BGC i gyflwyno'r rhestr gychwynnol o flaenoriaethau i Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, gan ddechrau'r cyfnod o 14 wythnos y mae'n rhaid i'w swyddfa ystyried y blaenoriaethau ar gyfer BGC Caerdydd. Gan fod y gwaith hwn yn cael ei fireinio dros y misoedd nesaf, bydd iteriadau pellach yn cael eu rhannu gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.</li> <li>• Caiff y gwaith o lywodraethu partneriaethau presennol ei adolygu er mwyn sicrhau bod 'perchnogaeth' o feysydd blaenoriaeth yn glir ac yn cael eu nodi yn y Cylch Gorchwyl perthnasol, a bod trefniadau adrodd/Ilinell olwg BGC/BPRh Caerdydd yn glir.</li> <li>• Bydd yr adolygiad yn cynhyrchu strwythur llywodraethu partneriaeth diwygiedig ar gyfer y BGC a'r BPRh i'w ystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol.</li> </ul> <p><b>Camau Gweithredu:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Drafftio blaenoriaethau partneriaeth strategol i'w dosbarthu i'r Bwrdd am sylw.</li> <li>• Mae'r rhestr o flaenoriaethau partneriaeth strategol i gael eu hystyried gan Gabinet y Cyngor.</li> </ul>	<p>Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Ysgrifenyddiaeth</p>
7.	<p><b>Diogelwch Cymunedol</b></p> <p><i>Cronfa Strydoedd Saffach</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae cais wedi cael ei gyflwyno ar gyfer rownd 4 o'r Gronfa Strydoedd Saffach. Canolbwyntir ar ddiogelwch menywod, troseddau cymdogaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.</li> </ul> <p><i>Diogelwch Dŵr</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>CYTUNWYD:</b> Partneriaeth Diogelwch Dŵr Caerdydd a Phenarth i uwchgyfeirio materion i'r Bwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol ac adrodd ar faterion i'r BGC ar sail eithriadau penodol.</li> </ul> <p><i>Clinigau erthyliad</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Cam Gweithredu:</b> Parthau byffer ynghylch clinigau erthyliad - Sian Sanders i ddwyn ynghyd farn partneriaid i lywio ymateb i Lywodraeth Cymru.</li> </ul>	<p>Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Sian Sanders</p>

Rhif	Eitem Agenda	
8.	<p><b>Unrhyw fater arall</b></p> <p><i>Cynnwys 'Partneriaid Eraill' – Amgueddfa Cymru</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Cam Gweithredu:</b> Cadeirydd i gwrdd ag Amgueddfa Cymru i drafod cais i ymuno â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.</li> </ul> <p><i>Tîm Iechyd Cyhoeddus BIP Caerdydd a'r Fro</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar drosglwyddo cyflogaeth y tîm Iechyd Cyhoeddus i'r Bwrdd Iechyd. Os cytunir, bydd y trosglwyddiad yn digwydd erbyn diwedd mis Medi.</li> </ul>	Ysgrifenyddiaeth
9.	<p><b>Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:</b> I'w gadarnhau</p>	